YSGOL BRYNREFAIL

FFORWM DISGYBLION

Pob hanner tymor y mae'r Fforwm Disgyblion yn ymgynnull lle y mae cynrychiolwyr y saith blwyddyn o ddisgyblion yn cael cyfleu i drafod materion sydd un ai i wneud gyda chalendr yr Ysgol e.e. trefniadau diwrnod trwyn coch, neu i drafod materion sydd yn bwysig i'r disgyblion eu hunain. Eleni bydd Rebecca Ellis a

Ieuan Davies o flwyddyn saith yn ymuno gyda'r fforwm am y tro cyntaf a hwythau yn ddisgyblion newydd i'r Ysgol. Dewiswyd y ddau, fel dewiswyd pawb arall ar y fforwm, trwy i'w cyd ddisgyblion yn eu dosbarth a'u blwyddyn Ysgol bleidleisio amdanynt. Caiff y fforwm gyfleu i gyfarfod a thrafod gyda'r pennaeth Mr Eifion Jones a'i uwch dim rheoli a, gyda'i gilydd, yn staff a disgyblion, gytuno ar drefniadau megis pa elusennau fydd yn manteisio o gefnogaeth yr ysgol yn ystod y flwyddyn neu pa reolau'r Ysgol y dylid eu trafod a'u cryfhau neu'u newid yn sgil newidiadau cyfoes ym myd addysg.